

Medi

Bwyd yr Hydref - Gweiddi



Awgrymiadau gwych ar sut i wneud yn fawr o'ch ffrwythau a'ch llysiâu ac i arbed gwastraff.

Os ydych chi'n arddwr brwd ac yn tyfu gormod o ffrwythau a llysiâu bob blwyddyn, dyma syniadau da i'ch helpu i gadw'ch cynnyrch dros y gaeaf.

Pryd i gynaeafu?

Er mwyn gwybod pryd yw'r amser gorau i hel eich llysiâu, ewch i wefan allotment-garden.org. Yma, cewch wybod pryd yn union yw'r amser gorau i gynaeafu eich cnydau.



Beth i'w wneud gyda chynnyrch dros ben a sut i osgoi gwastraff:

Dyma rai syniadau:

- Ei gyfnwid am gnwd gwahanol gyda garddwr arall fel bod gennych amrywiaeth.
- Cytuno i gynhyrchu mathau gwahanol o ffrwythau a llysiâu gyda'ch ffrindiau.
- Ewch <https://panedachacen.wordpress.com> i gael ryseitiau blasus.

Cynghorion cyflym ar gadw cynnyrch ar ei orau:

Rhewi ffrwythau a llysiâu pan maen nhw ar eu [gorau](#).

- Blansio'r llysiau yn gyntaf, eu trochi mewn dŵr rhewlyd yna eu sychu'n drylwyr.
- Eu cadw mewn cynwysyddion dwfn, aerglos neu fagiau rhewgell.
- Llenwi cynwysyddion i'r top a gofalu nad oes llawer o aer yn y bagiau rhewgell.
- Mae llysiau sydd fel arfer yn tyfu'n dal, yn cadw'n dda wrth eu coginio (india-corn, pys gardd) yn rhewi'n dda ar y cyfan hefyd.
- Mae ffrwythau a llysiau yn rhewi orau ar dymheredd o -17 gradd celsius neu'n is. Cadwch ffrwythau wedi'u rhewi am tua blwyddyn; a llysiau wedi'u rhewi am tua 18 mis.



Rhewi ffrwythau:

- Trefnwch y ffrwythau mewn un haen ar hambwrdd pobi. Ar ôl iddyn nhw rhewi, rhowch nhw mewn cynhwysydd neu fag plastig rhewgell.
- Mae rhai ffrwythau sy'n dueddol o droi'n frown – afalau, eirin gwlanog, nectarinau, ac ati - mae'n rhaid eu trin ag asid asgorbig.
- Creu [smwddi](#) - os nad ydych chi am rhewi'ch ffrwythau i gyd, gallwch wastad wneud smwddi ffrwythau blasus. Cofiwch, gallwch ddefnyddio pa bynnag ffrwythau rydych chi'n eu tyfu yn lle'r ffrwyth yn y rysâit.
- Mae cawl madarch neu domatos yn rhewi'n dda hefyd.

(Delwedd trwy garedigrwydd lovefoodhatewaste.com)



Environment
Agency

ERS TALWM!

Wedi darllen y pamffled gan Asiantaeth yr Amgylchedd aeth disgyblion blwyddyn 9 Ysgol Trewynt i holi oedolion am eu hatgofion o gynaeafu ffrwythau a llysiau ers talwm.

JOHN



Byddai dad yn tyfu ffa hir (*runner beans*) a byddem yn eu bwyta bob dydd bron iawn – yn lle sbageti gyda saws bolognese ac yn lle reis gyda chynri!

HEULWEN



Rydw i'n cofio fy mamgu – tua 1940 – yn piclo mwyar duon mewn potiau 'Kilner'. Rhai gwydr oedd y rhain ac roedd caead gwydr tynn arnyn nhw.

JAC



Pan oedd fy nhad yn fach byddai'n mynd i fferm ei nain a'i daid a phob gaeaf roedd darn anferth o gig moch yn hongian ar fachyn yn y gegin. Roedd hwnnw wedi ei halltu a byddai ei nain yn torri tafelli ohono i swper. Peth arall fydden nhw'n ei wneud oedd cadw afalau coginio o dan y gwely yn y llofft sbâr. Doedd yr arogl byth yn gadael y llofft, haf na gaeaf, meddai dad!

ELSI



Gwneud jam gyda ffrwythau fyddai fy mamgu. Byddem yn mynd i'r caeau i gasglu mwyar duon ac roedd yn rhaid eu golchi mewn dŵr a halen i gael gwared â'r cynrhon. Byddai'n gwneud jam gydag eirin hefyd.

NANSI



Gwaith fy nhadcu fyddai gwneud y gwin. Byddem yn mynd i gasglu pob math o aeron a byddai'n gwneud 'sloe gin' gydag eirin tagu. Byddem ni blant yn cael rhoi pinnau yn yr eirin ond roedd ei flas yn sur, sur!

GWYN



Chytnei! Dyna ydw i'n ei gofio! Dod adref o'r ysgol ac arogl melys chytnei yn llenwi'r tŷ! Chytnei tomatos – coch a gwyrdd, chytnei ffa, chytnei afal, chytnei maro, chytnei eirin ac ymlaen ac ymlaen!

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
Cnwd	ffrwythau / llysiau yn tyfu	crop
Trylwyr	yn fanwl	thoroughly
Fferyllfeydd	mwyr nag un fferyllfa	pharmacies
Eirin gwlanog	Eirin gwlanog	peaches
Cynwysyddion	Cynwysyddion	containers
Tafell(i)	sleisau	slices

Y Deg Gorchymyn, Mererid Hopwood



Cyngor chwaer fawr i chwaer fach sy'n dechrau ysgol uwchradd

Rheol rhif un

Rhaid gwisgo dy dei

yn fyr, ok?

Rheol rhif dau

Rhaid cadw gwm cnoi

yn dy fag ysgol cŵl,

dim sachell ledr

a DIM CAGŴL!

Rheol rhif tri

Sgert mini bob amser

a'i gwisgo â hyder.

Rheol rhif pedwar

Sodlau!

Rheol rhif pump

Gwisg fathodynnau

ond dim ond un neu ddau

Rheol rhif chwech

Paid â gwisgo cot –

hyd yn oed

os yw hi'n

bwrw glaw

lot.

Rheol rhif saith

Gwna dy waith!

Rheol rhif wyth

Ond paid â gwneud llwyth!

Rheol rhif naw

Cofia – beth bynnag a ddaw

Mae'n hysgol NI yn hollol WAW!

Rheol rhif deg

A phan rydyn ni'n colli

Mewn rygbi, pêl-droed, pêl-rwyd a hoci,

Neu pan ddaw'r côr yn olaf yn'steddfod sir -

Mae rheol rhif naw yn aros yn hollol wir.

Mererid Hopwood.



8 RHESWM

1. Arian! Arian! Arian!

Rydyn ni, blant ysgol, yn gwneud cwmnïau mawrion yn fwyfwy cyfoethog! Mae Americanwyr yn gwario dros filiwn o ddoleri'r flwyddyn ar wisg ysgol! Ewch i unrhyw archfarchnad yn eich ardal ac fe welwch chi wisg ysgol ar werth a'r cwmnïau'n cystadlu â'i gilydd – £5.00 am drowsus fan yma, £10.99 fan draw. Ac yna'r siopau arbennig sy'n gwerthu dillad gyda logo eich ysgol chi. Dim posib cael bargaen yma!



2. Gwneud drwg i'n datblygiad i fod yn oedolion.

Ar hyd ein cyfnod yn yr ysgol rydyn ni'n cael ein paratoi at fod yn oedolion. Ond mae gorfod gwisgo gwisg ysgol yn gwneud drwg i hynny. Mae'n orfodol, dydyn ni ddim yn cael dewis. Mae dewis yn rhan bwysig o baratoi at fod yn oedolyn.

3. Effeithio ar ein delwedd

Mae gwisg ysgol yn anelu at wneud i bawb edrych yr un fath. Ond yn lle gwella ein hunan ddelwedd mae'n gwneud yn hollol i'r gwrthwyneb. Mae maint a siâp corff pob un ohonom yn wahanol ac mae'n amhosibl i wisg ysgol siwtio pawb. Yn ôl yr ymchwili "Public School Uniforms: Effect on Perceptions of Gang Presence, School Climate, and Student Self-Perceptions," mae gan ddisgyblion sydd ddim wedi gorfod gwisgo gwisg ysgol fwy o hyder na'r rhai sydd wedi gorfod gwisgo gwisg ysgol.

4. Achosu bwlio

Dangosodd arolwg yn 2009 bod yr achosion o fwlio wedi codi 12%, ar ôl i wisg ysgol gael ei gorfodi yn yr UD. Yn ôl ymchwili arall yn 2010 roedd 14 yn fwy o ymosodiadau bob blwyddyn wedi i wisg ysgol gael ei gorfodi. Bwli ydy bwli, felly, a dydy gwisg ysgol ddim yn ei rwystro.



5. Diflas!

Mae gwneud pawb yr un fath yn BORING!" Ac mae'r dillad eu hunain yn BORING!

Meddylwch am eu lliwiau – glas, du, brown, gwyrdd ac unrhyw liw di-fflach. I wneud pethau'n waeth rhaid gwisgo'r un dillad ddydd ar ôl dydd! Mae ysgol yn ddigon diflas fel y mae heb orfod gwisgo dillad diflas hefyd!

6. Anghyforddus!

Mae sgertiau cwta'n rhy gwta weithiau a phan fo hi'n chwythu gellwch weld gormod! Maen nhw hefyd yn gallu effeithio ar eich gallu i ganolbwyntio mewn gwrs. Rydych yn poeni mwy am geisio tynnu'r sgert i lawr nag ar y wers!

Mae defnydd gwisg ysgol yn gallu bod yn galed ac yn anghyforddus ac mae'r steil yn gallu gwneud i chi edrych yn ddifrifol!



7. Rhy ddrud

Mae'r rhai sydd o blaid gwisg ysgol yn dweud eu bod yn rhatach na gwisgoedd eraill am fod gwisg ysgol yn cael ei gwisgo bob dydd. Ond y gwir amdani yw bod rhieni yn gwario tua £200 ar wisg ysgol bob blwyddyn. Gan fod plant yn tyfu'n gyflym rhaid prynu gwisg yn aml. Ar ben hynny, mewn rhai ysgolion mae gwisg blynyddoedd 10 ac 11 yn wahanol i wisg blynyddoedd 7 i 9.

8. Unffurfiaeth – yn lle Personoliaeth

Mae plant yn cael eu dysgu i fod yn hwy eu hunain ond mae gorfodi gwisg ysgol yn mynd yn groes i hynny. Rydyn ni'n troi yn robotiaid!



Geirfa

Cymraeg

Disgrifiad

Saesneg

Unffurfiaeth

pawb yr un fath

conformity

Gwm cnoi - Gweiddi



ERTHYGL MEWN CYLCHGRAWN YSGOL

Medi 16, 1848. Y diwrnod y cafodd gwm cnoi ei gynhyrchu yn ddiwydiannol am y tro cyntaf gan ddyn o'r enw John Curtis. Galwodd y gwm yn '*State of Maine Pure Spruce Gum*'. Ond roedd pobl wedi bod yn cnoi gwm yn ei ffurf naturiol ers miloedd o flynyddoedd. Yr un mwyaf cyffredin oedd lymphiau o resin o goed ond roedd pobl yn cnoi gwahanol fathau o laswellt, dail a grawn hefyd. Mastiche fyddai'r hen Roegiaid yn ei gnoi, byddai'r Mayaniaid yn cnoi sudd wedi caledu o'r goeden Sapodilla a byddai Indiaid Gogledd America yn cnoi sudd y goeden sbrws.



Ac rydw innau'n cnoi Wrigley's! Da ta drwg wnaeth yr hen John Curtis tybed? Cwyn mamgu ydy, 'Oes rhaid i ti gnoi'r gwm yna? Ti'n edrych fel buwch yn cnoi ei chill!' Fy ateb parod i ydy ei fod yn dda i'm dannedd. Mae fy neintydd yn dweud hynny hyd yn oed! Mae'n cael gwared ag anadl drwg ac mae'n gallu symud darnau o fwyd a bacteria – sy'n achosi anadl drwg - o'r dannedd. Mae'n gwneud hyn trwy greu salifa sy'n golchi'r geg. Mae cnoi gwm am 20 munud ar ôl pryd o fwyd yn helpu i gadw'r dannedd yn iach medden nhw.

Ateb mamgu ydy fod yr holl gnoi yn gwneud drwg i asgwrn fy ngên. Mae cnoi gormod ar un ochr o'r geg yn achosi poen yn y cyhyr a chur pen, pigyn clust a dannodd. Ond mae mamgu bob amser yn edrych ar yr ochr dywyll!

Efallai fod gan mamgu bwynt oherwydd mewn astudiaeth o 30 o bobl ifanc rhwng 6 a 19 oed oedd yn dioddef o gur pen rheolaidd fe stopiodd y cur pen wedi iddyn nhw roi'r gorau i gnoi gwm am fis. Dechreuodd 26 ohonynt gnoi gwm eto a daeth y poen pen yn ôl.

Ac i fod yn deg â mamgu eto, fedra innau ddim deall pam mae deintyddion o blaid cnoi gwm chwaith oherwydd mae rhai mathau yn llawn siwgwr ac mae pawb yn gwybod pa mor niweidiol ydy siwgwr i ddannedd heb sôn am y ffaith ei fod yn glynu i lenwadau ac yn eu tynnu oddi ar y dant. Mewn gwm di-siwgwr y blasau asidig sy'n erydu'r dannedd.

Mae llawer o bobl yn cnoi gwm i leihau eu hawydd am fwyd ac mae'n help i golli pwysau. Ar y llaw arall, mae deietegwyr yn dweud fod y rhai sy'n cnoi gwm yn llai tebygol o fwyta ffrwythau a llysiau am fod y blas mint yn y gwm yn gwneud i ffrwythau a llysiau flasau'n chwerw.

Wedi dweud hynny, mae gwm cnoi yn cael ei ddefnyddio yn lle bwyd wedi rhai triniaethau meddygol ar y stumog a'r system dreulio. Mae'n ddull o 'fwydo ffug' ac mae'n cynhyrchu salifa ac yn deffro'r sudd sy'n treulio bwyd.

Rydw i am orffen gydag un ffaith. Wyddoch chi fod gwm cnoi yn cynnwys lanolin? Stwff fel cŵyr ydy hwn ac mae'n dod o wllân defaid. Wrth gnoi gwm rydych yn cnoi gwllân defaid! Sut mae hynny'n gwneud i chi deimlo?


Gareth Edwards

FFEITHIAU

- Wrigley ydy'r cwmni sy'n gwerthu fwyaf o gwm ym Mhrydain – 95% o'r gwerthiant
- Gwerth dros £10b o gwm yn cael ei werthu ledled y byd
- Mae cynghorau yn dweud ei bod yn costio 3c i gynhyrchu darn o gwm a 10c i gael gwared ohono o'n strydoedd
- Yn 1992 cafodd gwerthu gwm cnoi ei wahardd yn Singapore. Roeddent yn dadlau fod pobl yn ei adael ar ddrysau sleidio trenau a bod hynny yn beryglus.
- Mae sawl astudiaeth feddygol wedi profi fod cnoi gwm yn eich helpu i ganolbwyntio a chofio pethau.
- Myth yw bod gwm cnoi yn aros yn eich stumog am 7 mlynedd os ydych yn ei lyncu. Er hynny, mae straeon am blant yn cael trafferthion ac yn gorfod cael triniaeth.
- Mae'n anodd iawn cael gwared â gwm cnoi o ddillad, o garpedi neu o'ch gwallt.
- Un rheswm dros beidio â chaniatáu gwm cnoi mewn ysgolion ydy ei fod yn cael ei adael o dan gadeiriau, byrddau ac
- Mae'n niwsans o dan feinciau mewn parciau cyhoeddus ac ar strydoedd hefyd.
- Oherwydd ei fod yn debyg i lud mae cael gwared â gwm cnoi o goncrid yn eithriadol o anodd a drud. Rhaid defnyddio jet stêm (*steam jet*) a chrafwr.



BLE MAE GWM CNOI YN CAEL EI FWYTA FWYAF (2012)



GWYLIWCH www.youtube.com/watch?v=wmp91XpPO

Geirfa		
Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
Cnoi ei chil	cnoi o hyd	chewing the cud
Dannodd	poen dannedd	toothache

Ffarwel Haf a Haf Bach Mihangel



FFARWÉL HAF

Beth mae'r awel oer yn ei ddweud

Wrth ddail y coed uwch fy mhen?

Mae ganddi newyddion drwg –

'Mae'r haf wedi dod i ben'

Beth mae'r nant yn ei ddweud wrth yr hesg

Ar waelod y Feidir Wen?

Yr un yw ei stori drist –

'Mae'r haf wedi dod i ben.'

Beth mae'r môr yn ei ddweud wrth y traeth,

Lle gynnau bu sŵn y plant?

Yr un ydyw stori'r môr

Â stori'r awel a'r nant.

Beth yw'r cleber ar frig y to,

Lle mae'r gwenoliaid yn rhes?

'Mae'r haf wedi dod i ben

A darfu'r heulwen a'r gwres.'

'Mae'r haf wedi dod i ben,'

Yr un yw'r stori bob tro –

Yr adar, yr awel a'r nant,

Rhaid i mi eu coelio, sbo.

T Llew Jones.

HAF BACH MIHANGEL

Gŵyl Mihangel



"Haf bach Mihangel"

Caiff yr ŵyl arbennig yma ei dathlu ar Fedi 29ain. Roedd Gŵyl Fihangel yn arfer bod yn un o ddyddiau pwysicaf y calendr.

Cysylltir yr ŵyl gyda'r dywediad 'Haf Bach Mihangel', os yw'n dywydd braf o gwmpas y cyfnod yma. Dyma'r hyn sy'n cael ei alw yn '*Indian Summer*' yn Saesneg.

Mae sôn yn y Beibl am Sant Mihangel, lle mae ef a'i lu o angylion yn ymladd gyda'r ddraig. Mae'n symbol o'r frwydr rhwng da a drwg.

Rhoddodd y Pab Gelasius yr ŵyl i Sant Mihangel yn y flwyddyn 487 OC. Yn dilyn hyn bu llawer o ddrychiolaethau o'r Sant o amgylch y byd. Roedd y gweledigaethau yma o hyd yn digwydd ar ben bryniau. Byddai eglwysi'n cael eu codi yno er mwyn anrhydeddu'r Sant.

Mae bwyta gŵydd ar Ŵyl Mihangel yn un traddodiad. Yn ôl y sôn, bu i'r Frenhines Elisabeth y Cyntaf fwyta gŵydd pan glywodd y newydd am orchfygiad yr Armada Sbaenaidd. Yn dilyn hyn daeth yn arferiad i fwyta'r aderyn yma i ddathlu'r Ŵyl.

Cysylltiad arall gyda'r ŵyl yw na ddylid casglu na bwyta mwyar duon ar ôl Medi 29ain. Yn ôl hen draddodiad, y gred yw bod y Diafol wedi eu gwneud yn anaddas i'w bwyta ar ôl y diwrnod hwn. Mae'n dial gan iddo gael ei luchio o'r nefoedd gan yr Archangel Mihangel a glanio i ganol mieri! Er mwyn dial, credir bod y Diafol yn poeri (neu waeth!) ar y mwyar duon ar y dyddiad yma.




Mae rhai pobl yn credu mai'r hen Wyl Mihangel, ar Hydref 10fed yw'r dyddiad i beidio casglu mwyar duon. Ar ôl yr adeg hon maen nhw fel arfer wedi dechrau crino a dydyn nhw ddim ar eu gorau.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
Hesg	glaswellt hir/ math o frwyn	reeds
Feidir	ffordd gul	lane
Cleber	siarad	chatter
Darfu	wedi gorffen	finished
Sbo	siwr o fod	surely
Gorchfygiad	o 'gorchfygu'	defeat
Drychiolaethau	ysbrydion	apparition
Crino	crebachu	to wither

O Ddydd i Ddydd - Gweiddi



Medi 2, 1666

dechreuodd Tân Mawr Llundain mewn becws yn Pudding Lane. Yn ystod y tridiau dilynol cafodd 13,000 o dai eu dinistrio ond dim ond 6 o bobl cafodd eu lladd.

Medi 2, 1752

Rhoddodd pobl Prydain y gorau i ddefnyddio'r calendr Juliaidd a newid i'r calendr Gregoraidd. Golygodd hyn bod dydd Mercher, Medi 2 yn cael ei ddilyn gan ddydd Iau, Medi 14. Cododd pobl mewn gwrthryfel am eu bod yn teimlo eu bod wedi colli unarddeg diwrnod!

Medi 4, 1962

Dechreuodd y Beatles eu sesiwn recordio cyntaf yn stiwdios Abbey Road, Lerpwl.

Medi 15, 1944 Milwyr America yn mynd i'r Almaen a oedd yn cael ei rheoli gan Hitler. Medi 15, 1789

– y nofelydd Americanaidd James Fenimore Cooper (1789-1851) yn cael ei eni yn Burlington, New Jersey. Enwog am y nofel *The Last of the Mohicans*.

Medi 15, 1890

Agatha Christie (1890-1976) yn cael ei geni yn Torquay, Lloegr. Ysgrifennodd bron i gant o lyfrau yn cynnwys llyfrau dirgelwch, dramâu, barddoniaeth a ffeithiol.

Medi 16, 1400 Owain Glyndŵr yn cael ei gyhoeddi yn Dywysog Cymru. Medi 16, 1848

Gwm cnoi yn cael ei gynhyrchu yn ddiwydiannol am y tro cyntaf gan John Curtis.

Medi 16, 1620


Llong y *Mayflower* yn gadael Lloegr am America gyda 102 o deithwyr a chriw bychan. Brwydrodd yn erbyn stormydd enbyd wrth groesi môr yr Iwerydd a chyrraedd Provincetown, Massachusetts ar Dachwedd 21^{ain}.

Medi 17, 1905

Yr actores Greta Garbo yn cael ei geni yn Stockholm, Sweden. Ar ôl gwneud 27 ffilm, ymddeolodd a byw fel meudwy nes ei marwolaeth yn 1990.

Medi 19-20, 1985 Daeargrynfeydd yn lladd rhwng 5,000 a 20,000 o bobl yn Mexico City gan adael mwy na 100,000 yn ddigartref. **Medi 23ain**

Tymor yr Hydref (Medi 23-Rhag. 21) yn dechrau yn Hemisffer y Gogledd. Dechrau Tymor y Gwanwyn yn Hemisffer y De.



DIWRNOD I BOPETH! RHAI O'R DYDDIAU SY'N CAEL EU DATHLU YN AMERICA

MEDI 1af –
DIWRNOD
CENEDLAETHOL
Y BACHGEN
CYW IÂR
CENEDLAETHOL

Yn America byddant yn dathlu diwrnod Cenedlaethol y Bachgen Cyw Iâr ar Fedi 1af bob blwyddyn. Mae'r Bachgen Cyw Iâr yn gofgolofn o fachgen 22 troedfedd o uchder gyda phen cyw iâr ac mae'n cario llond pwced o gyw iâr. Cafodd ei enwi ar ôl caffï o'r un enw yn Los Angeles yn yr 1970au. Pan fu farw perchennog y caffï yn 1984 cafodd ei roi i Los Angeles.

MEDI 3ydd –
DIWRNOD
"WELSH
RAREBIT" (Caws
pôb)

Er ei fod yn swnio'n debyg i 'rabbit' does dim cwningen yn y bwyd yma! Yn y 18fed ganrif byddai'n cael ei weini fel swper blasus ac roedd hefyd yn enwog fel pryd mewn tafarn. Caws ar dost gyda phupur, mwstard a saws Caerwrangon ydyw.

MEDI 5ed –
DIWRNOD
BYWYD GWYLLT

Dyma'r diwrnod i fynd i'r sw neu i fferm i weld sut mae bywyd gwyllt yn cael ei warchod.

MEDI 9fed

DIWRNOD CENEDLAETHOL Y TEDI BÊR

MEDI 12fed

DIWRNOD CENEDLAETHOL GEMAU FIDEO

MEDI 15fed

DIWRNOD GOOGLE.COM

MEDI 24ain

DIWRNOD CENEDLAETHOL ATALNODI

MEDI 28ain

DIWRNOD CENEDLAETHOL YFED CWRW

MEDI 30ain

DIWRNOD CENEDLAETHOL GWM CNOI

Gwyliau Ysgol - Gweiddi



GWYLIAU! GWYLIAU! GWYLIAU!

Nôl yn yr ysgol unwaith eto! Sut oeddech chi'n teimlo erbyn diwedd gwyliau'r haf? Blin? Siomedig? Neu oeddech chi wedi diflasu? Yn ysu am gael mynd yn ôl i'r ysgol? Ydy saith wythnos o wyliau yn rhy hir? Ydych chi wedi anghofio popeth ddysgoch chi yn yr ysgol llynedd?

Mae rhai yn dadlau y dylid cael PEDWAR tymor ysgol yn lle TRI. Gwnewch eich symiau ac fe gewch chi 4 tymor o 10 wythnos yr un = 40 wythnos a 3 wythnos o wyliau rhwng pob tymor = 52 wythnos. Yr un faint o wyliau ond bod pob un yn gyfartal.

Un fantais enfawr yw y byddai gwyliau i deuluoedd yn rhatach.

Am y tair blynedd ddiwethaf yn Lloegr roedd rhieni yn cael dirwy am dynnu eu plant o'r ysgol i fynd ar wyliau. Ond bydd pethau'n newid ym mis Medi 2016. Ymddangosodd yr erthygl hon mewn papur newydd yn ddiweddar.

YSGOLION I NEWID DYDDIADAU TYMHORAU I ALLUOGI TEULUOEDD I GAEL GWYLIAU RHATACH

Mae mwy na 60,000 o deuluoedd wedi cael dirwy am fynd â'u plant am wyliau yn ystod tymor ysgol.

Mae gwyliau 40% yn ddrutach yn ystod gwyliau ysgol a tan fis Medi 2013 roedd gan benaethiaid ysgolion yn Lloegr yr hawl i ganiatáu hyd at 10 diwrnod o wyliau yn ystod amser ysgol. Wedi i'r rheol gael ei newid cafodd tua 60,000 o deuluoedd eu dirwyo am fynd â'u plant ar wyliau, i briodasau ac i angladdau. Mae dwsinau o rieni wedi cael eu dyfarnu yn euog o beidio â thalu'r ddirwy o £60 y plentyn oedd yn codi i £120 os nad oedd yn cael ei dalu o fewn 21 diwrnod. 3 mis o garchar a dirwy o £2,500 oedd y ddedfryd am beidio â thalu'r ddirwy o gwbl.


O fis Medi 2016, fodd bynnag, bydd gan benaethiaid yr hawl i newid amser tymhorau ysgol. Mae mwy na 70% o benaethiaid ysgolion yn Lloegr wedi dweud y byddant yn ystyried gwneud newidiadau fydd yn caniatáu i deuluoedd fwynhau gwyliau mwy fforddiadwy a mynychu gwyliau crefyddol a diwylliannol.



Bu cryn ddadlau ynglŷn â phenderfyniad y llywodraeth yn Lloegr i wahardd absenoldebau o'r ysgol os nad oeddent o dan 'amgylchiadau eithriadol'. Nid oedd mynd ar wyliau yn amgylchiad o'r fath.

Mae lle i gredu, fodd bynnag, y bydd cwmnïau teithio yn newid eu prisiau i gyd-fynd â'r newidiadau yn amseroedd gwyliau ysgol. Dywed un adroddiad, 'Bydd y farchnad wyliau yn newid fel y bydd ysgolion yn newid eu hamserlen.

Nid prisiau gwyliau yw'r unig beth sy'n poeni addysgwyr am wyliau ysgol. Gan fod gwyliau'r haf mor hir mae perygl i ddisgyblion anghofio rhai sgiliau oherwydd nad ydynt wedi eu hymarfer am 6 i 7 wythnos. Mae disgyblion yn perfformio'n waeth mewn profion ym mis Medi nag yn yr un profion ym mis Mehefin cynt.



YR AWDURDODAU ADDYSG A RODDODD Y FWYAF O DDIRWYON 2013-2014

1. Swydd Gaerhirfryn - 3,106 - cynnydd o 176%
2. Caint - 2,973 – cynnydd o 3%
3. Caerwrangon - 2,728 – dim newid
4. Gorllewin Sussex - 2,403 – cynnydd o 146 %
5. Luton - 2,249 – cynnydd o 61%

- 6. Oldham - 2,022 – cynnydd o 69%
- 7. Manceinion - 1,911 – cynnydd o 54%
- 8. Dwyrain Sussex - 1,756 – cynnydd o 41%
- 9. Swydd Efrog - 1,594 – cynnydd o 49%
- 10. Doncaster - 1,464 – cynnydd o 132%

Pan aeth Stewart a Natasha Sutherland ar wyliau i Rhodes cawsant ddirwy o £1,000.

Yn ei araith danbaid dywedodd Mr Sutherland, sy'n gweithio i'r Weinyddiaeth Amddiffyn, 'Doedd gennym ni ddim dewis ond pledio'n euog. Fel arall byddai fy ngwraig a fi yn y carchar. Byddai hynny'n llawer mwy niweidiol i addysg ein plant nag wythnos o wyliau. Mae'r sefyllfa yn hollol annheg. Mae'r gwaith rydw i'n ei wneud yn sensitif a rhaid cadw nifer y staff yn uchel. Pe bai pob gweithiwr yn y wlad yn cymryd gwyliau yn ystod gwyliau ysgol byddai'n draed moch yma. Rydw i'n cael fy nhrin fel drwgweithredwr dim ond am fynd â'm plant ar wyliau.'

PRISIAU GWYLIAU

Playa Melonaras Palace, Gran Canaria

Mae'r prisiau am y flwyddyn 2016 yn cychwyn o



Nifer o nosweithiau	7	14
01 Mai - 25 Mai	£739	1205
26 Mai - 30 Mai	£935	1285
31 Mai - 8 Meh	£805	1265
9 Meh - 22 Meh	£795	1275
23 Meh - 29 Meh	£799	1325

30 Meh - 6 Gorff	£869	1375
7 Gorff - 14 Gorff	£895	£1429
15 Gorff - 21 Gorff	£999	£1565
22 Gorff - 18 Awst	£999	£1615
19 Awst – 22 Awst	£1099	£1619
23 Awst – 28 Awst	£1059	£1429
29 Awst - 6 Medi	£885	£1379
7 Medi – 20 Medi	£859	£1369
21 Medi – 19 Hydref	£895	£1415
20 Hydref – 25 Hydref	£1025	£1465
26 Hydref – 31 Hydref	£945	£1455
Plant o dan 12 oed. Dyma'r pris cychwynnol.	£529	£779

Sylwadau:

Mae sawl rheswm dros adael i blentyn golli ysgol a dydy cosbi rhieni ddim yn esiampl dda.

Marjory Gill

Fel ffermwr fe fyddwn i'n croesawu newid amser tymhorau ysgol. Mae gen i ddau fab sy'n fy helpu adeg cynhaeaf gwair ym mis Mehefin a Gorffennaf ond maen nhw yn yr ysgol! A beth bynnag, onid ydy'r tywydd yn well bryd hynny nac ym mis Awst? Rydw i'n siwr mai dyna'r mis mwyaf gwlyb trwy'r haf!

Kenneth Morris

Mae canlyniadau Lefel A a TGAU wedi cael eu cyhoeddi! Mae dyfodol disglair i'r rhai gafodd y graddau uchaf. ADDYSG! Yr allwedd hud i lwyddiant! Dyna pam mae'n rhaid i bob disgybl fynychu'r ysgol mor rheolaidd â *stopwatch* yn y Gemau Olympaidd! Druan ohonynt! Mae addysg yn eu troi'n robotiaid!

Mae tuedd i feddwl mai dau fath o deulu sydd yn debygol o fod mewn helynt am beidio ag anfon eu plant i'r ysgol. Y math cyntaf yw'r teulu sy'n byw ar fudd-daliadau, y rhai sydd ddim yn trafferthu i godi yn y bore i anfon eu plant i'r ysgol. Mae'n ddigon hawdd cosbi'r rhain trwy dynnu'r dirwy o'u budd-daliadau.

Yr ail fath yw'r rhai sy'n tynnu eu plant o'r ysgol er mwyn mynd â nhw i Fflorida am bythefnos. Yn ystod tymor ysgol ydy'r unig amser maen nhw'n gallu ei fforddio. Ydy'r plant yn dysgu mwy yn Fflorida nag a fyddent yn yr ysgol? Os yw'r rhieni yn cael eu dirwyo pam trafferthu mynd ar wyliau rhatach?

Megan Evans

Mae rhieni sy'n mynd â'u plant ar wyliau ysgol yn ystod amser ysgol yn haeddu cael eu cosbi. Os ydyn nhw mor awyddus i fynd ar wyliau pam na wnân nhw roi addysg yn y cartref i'w plant? Byddent felly yn rhydd i ddewis gwyliau pryd bynnag hoffon nhw a gallent barhau i addysgu eu plant tra oddi cartref.

Michael Thomas

Diolch byth nad ydy Cynulliad Cymru wedi penderfynu cosbi rhieni am fynd â'u plant ar wyliau yn ystod tymor ysgol. Yr hyn sy'n fy mhoeni i ynglŷn â newid tymhorau ydy y gallen ni fethu â mynd i'r Sioe Frenhinol yn Llanelwedd!

Maldwyn Price

A beth am Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol? Does dim 10 wythnos rhwng y rheini a'r Sioe Fawr! Fe fydda i'n mynd i bob un ohonyn nhw!

Sioned Wiliam

Sioned Wiliam

Mae'n anodd cadw plant yn ddiddig am 6 wythnos o wyliau ysgol. Gellir gwneud pethau sydd ddim yn costio llawer am gyfnod byr ond buan mae plant yn diflasu ar hynny ac yn cwyno eisiau gwneud pethau mwy cyffrous.

Eryl Price

Yn ein pentref ni rydyn ni'n cael llawer o drafferth yn ystod gwyliau ysgol – plant yn fandaleiddio ac yn cicio'u sodlau. A does dim byd gwaeth na gweld plant hŷn yn gofalu am frawd neu chwaer fach ac yn eu llusgo gyda nhw i wneud drygioni.

Diwrnod Cychwyn a Heb Ffedog ei Fam



DIWRNOD CYCHWYN

Daeth criw dieithr atom ddoe
yn perarogli gan ledr newydd
a'u hwynebâu'n loyw fel eu bagiau.

Y cywion ofnus, llygadfawr
yn rhodio'u gwyleidd-dra
mewn coridorau anghynefin.

Bechgyn yr ail ddosbarth,
oesau yn hŷn,
yn taflu eu gorhyder

o ddrws i ddrws,

Ond heddiw, cyn y prynhawn
gwelais ambell newyddian yn dechrau
bwrw'r plygion o'i ddillad.

John Gwilym Jones.

HEB FFEDOG EI FAM

(addasiad o stori gan Urien Wiliam)

Gwawriodd yr ail o Fedi yn fore dydd Mawrth heulog a digwmwl i Dafydd yn unarddeg a hanner oed. Roedd hi'n saith o'r gloch. Agorodd ei fam y drws yn ddistaw rhag ei ddychryn a cherddodd ar flaenau ei thraed at erchwyn y gwely. Agorodd y bachgen ei lygaid brownddu tywyll, diniwed.

'Helo bach, nes i dy ddeffro di?'

Syllodd yntau'n ddiagramgyffred arni am ennyd yna gloywodd ei lygaid.

'Ydy hi'n amser codi?'

'Ydy. '

Llithrodd Dafydd o'r gwely ag un symudiad llyfn a safodd yn hapus o flaen y ffenest.

'Bore braf, mam. Dim glaw!'

'Gore i gyd – gobeithio y daw e â lwc i ti drwy'r flwyddyn!'

Wedi i'w fam ddiflannu bwriodd Dafydd ati i molchi a gwisgo – crys gwyn heddiw, fel crys yr Urdd a thei wedi ei glymu'n dynn. Fel hyn bob dydd o hyn allan.

Wrth iddo fwyta'i frecwast dechreuodd arwyddocâd y bore ei gynhyrfu. O heddiw ymlaen byddai patrwm pur wahanol i'w fywyd – codi awr yn gynt, yna cerdded i gwrdd â'r bws ysgol, taith hir o ddeunaw milltir wedyn ar hyd cyffiniau'r ddinas at yr ysgol newydd. Gobeithiai y byddai Gareth yn yr un dosbarth ag ef.

'Beth sy'n dy boeni?'

Gallai ei fam synhwyro ei deimladau i drwch y blewyn.

'Beth os na fydda i'n nabod neb yn fy nosbarth?' baglodd.

'Fyddi di ddim yn hir cyn gwneud ffrindiau newydd – ymhen pythefnos fe fyddi di wedi anghofio dy hen ffrindiau'n llwyr. Beth bynnag, does dim amser da ti i ddelwi fan'na – cer lan i frwsio dy ddannedd, glou!'

Hedfanodd lan y grisiau ac i lawr yr un mor gyflym.

'Mynd nawr!'

'Aros funud i fi gael golwg arnat ti!'

'Ta ta!'

Ac roedd ar ei ffordd! Wrth nesáu at yr arosfan bws gwelodd grugyn o blant a daeth gwaedd sydyn o gymeradwyaeth i'w glustiau.

'Drychwch! Dafydd Rhys! Dere'mlân Dafi bach! Rwy'ti mewn amdani heddi! Aros nes gwelith y bois dy ddillad glân! Fydd dy fami ddim yn dy nabod heno! Hei! Drychwch! Ma'fe'n llefain!'

'Nag w!'

'Wyt! Ma dŵr yn dy lygaid! Babi!'

'Caea dy geg yr hen John Francis ... a gad e'n llonydd!'

'Pam y dylwn i? Mae'n sbort poeni bechgyn newydd.'

'Hy! Rwy'n dy gofio di'n sgrechen mwrdrwr y llynedd! Rwy'ti'n un pert i alw neb yn fabi!'

Cyn i'r frwydr geiriau boethi daeth chwyrnu'r bws i'w clustiau.

Ymhen ychydig roedd pawb wedi dringo iddo a'r rhai cynta'n boltti am y cefn lle'r oedd ambell sedd wag. Suddodd Dafydd i un o'r seddau blaen yn ddiolchgar am gael llonydd gan ei boenydiwr. Doedd hi ddim yn wir iddo fod â dagrau yn ei lygaid gynnau ond un fel'na oedd John Francis. Gyda lwc gallai Dafydd gadw o'i ffordd wedi cyrraedd yr ysgol.

Clapiodd ei amrannau hanner dwsin o weithiau'n gyflym rhag ofn bod unrhyw amheuaeth o leithder yna mentrodd edrych o'i amgylch. Roedd y bws yn hanner llawn a'r wynebâu'n weddol gyfarwydd iddo. Gwenodd ar ferch walltgoch mewn sedd gyferbyn ag ef - hi fu ei amddiffynnydd gynnau - a gwenodd hithau cyn troi'n ôl at ei ffrindiau.

Lledodd ton o anesmwythyd drosto. Fyddai'r athrawon yn garedig wrth y plant newydd iddyn nhw gael cartrefu'n iawn? Rhyw drefn ryfedd oedd yn yr ysgol uwchradd – gwahanol athrawon am bob gwrs a'r rheini'n mynd a dod drwy'r dydd.

Erbyn hyn roedd y bws yn llawn a phlant o bob math ac oedran yn siarad yn stwrlyd â'i gilydd, yn gynnwrf gwyllt wrth agosáu at flwyddyn newydd o ysgol ac yn sôn yn hwyliog am y gwyliau haf. Pawb ond yn rhai newydd. Roedd y rheiny wedi suddo i'w cregyn ac yn welw wrth ymyl y rhai hŷn hunan hyderus oedd yn gwybod popeth – o gyfrinachau pynciau cymhleth fel Cemeg a Ffiseg i lys-enwau'r athrawon.

Cyrhaeddodd y bws derfyn y daith ac aros. Rhuthrodd y mawrion am y drws gan weiddi ar eu ffrindiau, yn falch o fod nôl unwaith eto. Cododd y plant newydd eu bagiau gloywon a gafel yn dynn yn eu cotiau newydd cyn baglu eu ffordd allan o'r bws.

Ceisiodd Dafydd fod yn ddewr. Pa wahaniaeth oedd am wlychad dan y tap pe bai rhaid? Fe ddangosai iddyn nhw nad oedd angen ffedog ei fam arno fe!

'Hei! Dafydd Rhys! Dere'ma!'

Curodd ei galon yn gyflymach. John Francis oedd yn galw – o ganol clwstwr o fechgyn wrth y glwyd. Roedden nhw'n barod i'w groesawu fe yn yr un modd ag y cawson nhw eu croesawu y llynedd. Sythodd a chamu tuag at y criw.

'Wyt ti'n barod'te?'

'Ydw.' Crygni yn ei lais. Cynnig eto, yn uwch y tro hwn.

'Ydw.'

Gobeithiai na fyddai'r dŵr yn ofnadwy o oer!

Urien Wiliam

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
Rhodio	cerdded	walking
Gwyleidd-dra	swildod	shyness
Anghynefin	dieithr	unfamiliar
Gorhyder	gormod o hyder	overconfident
Newyddian	un newydd	new

Owain Glyndŵr - Gweiddi



Dowch i ddilyn ôl traed Owain Glyndŵr, Cymraeg

Dowch gyda ni o'r Dwyrain i'r Gorllewin ar draws Cymru fel y gwnaeth Owain Glyndŵr dros 600 mlynedd yn ôl.

Darn o dir oedd wrth wraidd yr holl helynt. Hawliodd estron cyfoethog cyfoethog – arglwydd de Grey - gaeau oedd yn perthyn i berson lleol. Dyna ddigon! Cododd ein harwr lleol ei faner mewn gwrthryfel! Y flwyddyn oedd 1400. I'r gad, Owain Glyndŵr!



Yn gyntaf fe ymwelwn â Sycharth, ger Croesoswallt, llys Owain Glyndŵr, Tywysog Powys. Yma roedd yn byw'n fodlon. Roedd yn enwog am y croeso a roddai i feirdd a thrwbadwriaid. Heddiw y cwbl a welwn yw bryncyn gwyrdd a choeden dderwen gydag arfbais Owain Glyndŵr wedi ei hoelio arni. Dywed rhai mai yma mae Owain wedi ei gladdu.



I'r gogledd â ni wedyn i gael cipolwg ar gastell prif elyn Owain, yr Arglwydd de Grey, yn Rhuthun. Dyma'r Sais ffroenuchel oedd wedi achosi'r gwrthryfel trwy ddwyn tir. Heddiw adfeilion yw'r castell. Yn nyddiau Owain Glyndŵr rhyw fath o wersyll oedd hwn, garsiwn Seisnig, mewn ardal elyniaethus.

Yr ymosodiad ar Ruthun oedd y cyntaf mewn cyfres o ymosodiadau. Aeth ymlaen i ymosod ar Fflint, Rhuddlan, Holt, Croesoswallt a'r Trallwng.



Fe neidiwn yn ôl i'r car ac anelu am Gorwen, tref fechan hyfryd sy'n haeddu ymweliad pe na bai ond am y fynwent a'r eglwys. Yng Nghorwen ar Fedi 16, 1400 cododd Owain ei faner a heidiodd Cymry anfodlon i ymuno ag ef. Ar wal yng nghefn y fynwent mae argraffnod o gleddyf Owain. Tu mewn i'r eglwys mae delw garreg o farchog yn edrych fel pe bai newydd orwedd i gysgu rhwng areithiau tanbaid Owain!



Ar Stryd Fawr y dref mae delw drawiadol o Glyndŵr. Mae'n rhyfelwr ar ei geffyl rhyfel, ei wyneb yn dangos ei falchder wrth ddathlu ei fuddugoliaeth, tebyg iawn i Gareth Bale wedi iddo sgorio gôl!

O Gorwen fe awn ymlaen i Fetws-y-Coed ac ymweld â Rhaeadr Ewynnol. Tybed beth fyddai Owain Glyndŵr yn ei ddweud pe bai'n gwybod mai Sais yw perchennog y tir o gwmpas y rhaeadr enwog? A pham ei alw yn 'Swallow Falls'?



Ym mis Mawrth 1401 llwyddodd byddin Glyndŵr i gipio Conwy oddi ar y Saeson. Dychrynodd hyn Henry IV yn fawr. Felly, i ffwrdd â ni o Fetws-y-Coed i Gonwy. Bydd cerdded waliau'r dref yn wefreiddiol gyda golygfeydd godidog o afon Conwy yn teithio i lawr rhwng bryniau gwyrdd y dyffryn cyn llifo i'r môr. Gallwch deimlo gwefr Owain pan lwyddodd i achub y tir hwn. I lawr o'r waliau a dyma ni yn nhref hynafol Conwy. Wedi gwasgu i mewn i dŷ lleiaf Cymru fe symudwn ymlaen i Harlech.

Er iddo gipio Harlech, methodd Glyndŵr â dod i ddealltwriaeth gyda Henry "Hotspur" Percy ym mrwydr Amwythig yn 1403. Llosgwyd cartref Owain yn Sycharth a thawelodd y gwrthryfel.

A dyna ddiwedd ein taith ninnau! Pryd o fwyd blasus amdani!

GWYBODAETH O LYFR HANES

OWAIN GLYNDŴR

Ganwyd: 1350

Magwyd: Sycharth, ger Llangedwyn ym Mhowys. Yno roedd ef, ei wraig a'i blant yn byw.

Addysg: Llysoedd Cyfreithiol, Llundain

Profiad milwrol: Bu'n gwasanaethu ym myddin Lloegr

Ei Funud Fawr: Cael ei gyhoeddi yn Dywysog Cymru ar Fedi 16eg, 1400 a chychwyn gwrthryfel yn erbyn y Saeson gan sefydlu senedd Gymreig ym Machynlleth.

Diwrnod Owain Glyndŵr: Medi 16eg. Mae ymgyrch i wneud y diwrnod yn wyliau cenedlaethol yng Nghymru.

Y Gwrthryfel:

Atgyfnerthwyd ymdeimlad Owain o Gymreictod pan ddechreuodd ffraeo gyda'i gymydog, yr Arglwydd Grey o Ruthun, un o gyfeillion y Brenin Henry IV. Y ffrae yma arweiniodd at wrthryfel Owain Glyndŵr, ei ymosodiad ar Ruthun a'i gyhoeddi'n Dywysog Cymru. Cyhoeddwyd Owain yn herwr ond fe gynyddodd ei achos. Ymunodd cannoedd o ddynion cyffredin yn ei wrthryfel am annibyniaeth i Gymru a dychwelodd y Cymry alltud i'w gefnogi. Trechwyd nifer o gestyll Seisnig a chynhaliwyd y senedd gyntaf ym Machynlleth ac arwyddwyd cytundebau ffurfiol rhyngwladol gyda Ffrainc a'r Alban.

Enillodd gestyll Cricieth, Aberystwyth a Harlech ac erbyn 1405 roedd ei awdurdod yn cael ei gydnabod drwy Gymru benbaladr. Ond yn dilyn y llwyddiannau, fe ddaeth y methiannau yng Nghastell Grosmont a Phwllmelyn ger Bryn Buga.

Apeliodd Glyndŵr ar Ffrainc am gymorth mewn llythyr a ysgrifennwyd ym Mhennal ger Machynlleth. Mae Llythyr Pennal ar gael heddiw yn Archifdy Cenedlaethol Ffrainc. Mae'r llythyr yn brawf o weledigaeth Owain am Gymru rydd. Ond er gwaethaf ei holl sgiliau diplomyddol, ni ddaeth ateb o Ffrainc.

Fe frwydrodd Owain i'r pen yn ei gastell olaf sef Harlech yn 1409. Llwyddodd Owain i ddianc. Carcharwyd ei wraig a'i ddwy ferch yn Llundain ac yno y buont farw. Treuliodd Glyndŵr weddill ei ddyddiau gyda'i fab yng nghyfraith Syr John Skydmore yn Kentchurch, Swydd Henffordd.

Yn 1415, gwrthododd gynnig o bardwn. Does neb yn gwybod yn iawn sut y bu farw ac mae lleoliad ei fedd yn ddirgelwch mawr hyd heddiw.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
Rhodio	cerdded	walking
Gwyleidd-dra	swildod	shyness
Anghynefin	dieithr	unfamiliar
Gorhyder	gormod o hyder	overconfident
Newyddian	un newydd	new

Y dydd y newidiodd y byd



Medi 11, 2001, ymosododd y grŵp terfysgol Islamaidd, al-Qaeda, o dan arweiniad Osama bin Laden, ar America. Fe wnaethon nhw herwgipio pedair awyren oedd yn cario teithwyr cyffredin a'u defnyddio fel arfau i chwalu adeiladau.

- 8:46yb: Awyren American Airlines 11 o Boston yn taro Tŵr y Gogledd, Canolfan Fasnach y Byd yn Efrog Newydd
- 9:03yb: Awyren United Airlines 175 o Boston yn taro Tŵr y De
- 9:37yb: Awyren American Airlines 77 o Dulles yn Washington, D.C. yn taro'r Pentagon.
- 10:03yb: Awyren United Airlines 93 o Newark, New Jersey yn disgyn a ffrwydro mewn cae ger Shanksville, Pennsylvania wedi i'r teithwyr geisio ei hachub o ddwylo terfysgwyr.

Lladdodd [ymosodiadau Medi 11](#) 2,996 o bobl ac anafu mwy na 6,000 ^[1] Roedd y marwolaethau hyn yn y fan a'r lle ac yn cynnwys 265 ar y bedair awyren, 2,606 yng [Nghanolfan Masnach y Byd](#) a'r cyffiniau a 125 yn y [Pentagon](#).^{[2][3]} Dyma'r ymosodiadau terfysgol gwaethaf yn hanes y byd a'r ymosodiad tramor mwyaf dinistriol ar dir America er ymosodiad y [Siapaneaid ar Pearl Harbour](#) ym mis Rhagfyr 1941.^[4]

Ar wahân i'r 71 o blismyn a'r 343 o ddynton tân, sifiliaid oedd pawb a laddwyd yng Nghanolfan Fasnach y Byd ac yn [Efrog Newydd](#).^[5] Lladdwyd un plismon pan syrthiodd awyren yr [United Airlines Ehediad 93](#) i gae ger [Shanksville, Pennsylvania](#),^[6] 55 [swyddog milwrol](#) yn y Pentagon yn Swydd [Arlington, Virginia](#),^[7] a 19 o derfysgwyr ar y bedair awyren. Lladdwyd 2,605 o Americanwyr gan gynnwys 2,135 o sifiliaid, heb sôn am y 372 oedd ddim yn Americanwyr. Deuai'r rhain o dros 90 gwlad gan gynnwys [Prydain](#) ^{[2][8]} (67 marwolaeth), y Weriniaeth Ddominicaidd (47 marwolaeth), ac [India](#) (41 marwolaeth).

Yn 2007 dechreuodd y swyddfa feddygol yn Efrog Newydd ychwanegu'r niferoedd o bobl fu farw o ganlyniad i afiechydon gafodd eu hachosi gan lwch y ffrwydriadau at yr ystadegau.

Yna, ym mis Awst 2013, cyhoeddwyd bod 1,140 o bobl oedd yn gweithio neu yn byw yn [Lower Manhattan](#) pan ddigwyddodd yr ymosodiad wedi cael diagnosis o gancr o ganlyniad i "ddod i gysylltiad â gwenwynau yn Ground Zero".^[14]

Dianc

Yn union wedi i'r awyren daro lloriau 93 i 99 ar Dŵr y Gogledd roedd yr 8,000 o bobl oedd ar y lloriau o dan y rhai hynny yn wynebu sefyllfa echrydus. Ceisiodd rhai ohonynt ddianc i lawr y grisiau cul oedd yn rhy fach i gymaint o bobl. Arhosodd eraill am gyfarwyddyd. Yn ogystal, wrth i'r awyrennau daro'r tŵr roedd yr adeilad wedi cael ei siglo a'r drysau yn gwrthod agor.

O weld beth oedd yn digwydd yn Nhŵr y Gogledd dechreuodd rhai ddianc o Dŵr y De. Fodd bynnag, rhwng ymosodiad ehediad 11 ac ehediad 175 doedd neb yn sylweddoli mai ymosodiad terfysgol oedd wedi digwydd a rhoddwyd cyfarwyddyd i'r gweithwyr i aros yn eu swyddfeydd.^[19] Anwybyddu hynny wnaeth llawer.

TYSTIOLAETH LLYGAID DYSTION

Yn y dyddiau wedi'r drychineb roedd yr arogl yn aros. Arogl cig yn llosgi a chorff ar ôl corff yn cael ei gario trwy'r sbwriel.

Roy Pierce, Gweithiwr Tân

Pan oeddem o fewn tua 50 llath o Dŵr y De clywsom sain main uchel popio a wnaeth i bawb aros. Edrychom i fyny a syrthiodd popeth. Mae'n rhaid mai'r rhybedion (*rivets*) oedd yn agor. Ni allai'r adeilad sefyll heb ei ffrâm, pwysodd tuag atom a dechreuodd syrthio.

Ian Grady, Gweithiwr Tân



'Roeddwn yn gweithio ar lawr 77 o'r ail dŵr pan glywais sŵn crashio. Pan edrychais trwy'r ffenest gwelais dwll anferth ar ochr dde'r adeilad. Mae'n anodd mynegi beth roeddwn i'n ei deimlo ar y pryd. Sioc, mae'n siŵr. Roeddwn newydd adael cyfarfod ar lawr 78. Pe bawn i dal yno fyddwn i ddim yma heddiw.

Jonathan Weinberg

Rydw i'n cofio teimlo'r ysgytwad a gweld darn o fetel yn hedfan heibio'r ffenest. Wrth redeg oddi yno rhwng yr adeiladau uchel roedd arna i ofn i un ohonynt ddymchwel ar fy mhen.

Ashton Lee

Gweld pobl yn neidio allan o ffenestri sy'n aros yn y cof. Roedd gweld faint o amser gymerai iddynt ddisgyn yn swreal. Rydw i'n cofio meddwl pa mor enbyd oedd hi i fyny yno os mai neidio i'ch marwolaeth oedd y

dewis gorau. Rydw i hefyd yn cofio meddwl sut ar y ddaear oedden nhw'n mynd i ddiffodd y tanau. Yna daeth rhyw riddfan sgrechlyd fel pe bai Duw wedi cael gafael ar lond llaw o drawstiau haearn a'u rhwygo. Y tyrau yn dymchwel.

Rob Gegg



ROEDDWN I YNO

Yn ôl yr arfer, roedd yr oriau brig yn eu hanterth am 8.30 y bore a minnau'n syllu trwy ffenest fy llofft yng ngwesty moethus Hilton y Mileniwm gyferbyn â'r Tyrau.

Roedd yn fore hyfryd a miloedd o ddynion a merched trwsiadus yn cyrraedd eu swyddfeydd ledled Efrog Newydd. Pob un â'i stori, pob un â'i fywyd o'i flaen. Roedd mwyafrif y rhai a welwn i yn gweithio i'r amryw fusnesau rhyngwladol llwyddiannus oedd â swyddfeydd yng Nghanolfan Fasnach y Byd. Gallwn weld y ddau dŵr uchel, 110 llawr o uchder, y symbolau llawn balchder a menter. Heddiw, yn ôl yr arfer, byddai dros 50,000 o bobl yn gweithio yno.

Stereoteip o ymwelydd oeddwn i yn tynnu lluniau o'r olygfa fyrlymus nes i mi glywed sŵn awyren yn nesáu. Sŵn digon cyffredin i ddechrau nes iddo droi'n rhu ac yna ffrwydrad anferth.

Syllais drwy'r ffenest wrth i ddirifoldeb y sefyllfa wawrio arnaf. Syllu a syllu wrth sylweddoli bod pobl wedi eu dal ar y lloriau uwchben y ffrwydrad. Fe'u gwelais yn taflu byrddau, cadeiriau a chyfrifiaduron trwy'r ffenestri i chwalu'r gwydr i gael aer. Roedden nhw'n hongian o'r ffenestri. Yna'r golygfeydd gwaethaf – pobl yn neidio. Neidio i'w marwolaeth i osgoi cael eu llosgi'n fyw. A doedd dim y gallwn i ei wneud. Dim ond gwyllo'r darnau o fetel a thunelli o bapur yn hedfan o dyllau'r ffenestri, gwranddo ar y concrid a'r dur yn crensiannu a syllu a syllu trwy gymylau o lwch ar y bobl.

Dywedwyd wrthym am aros yn yr adeilad gan fod cymaint o bethau'n chwyrlio o gwmpas. Mi wnes i gynnau'r teledu i gael newyddion. Ar y pryd roeddwn yn meddwl mai damwain ydoedd. Ond yna clywais sgrech yr ail awyren.

Y tro hwn roedd y ffrwydrad yn uwch ac yn nes ac ysgydodd y gwesty. Yn sydyn, sylweddolais bod rhywbeth mawr o'i le. Roedd yn rhaid dianc.

Fy ymateb cyntaf oedd rhedeg dim ots i ble. Wnes i ddim newid o'm dillad nos hyd yn oed, heb sôn am fynd ag unrhyw eiddo gyda mi.

Roedd gwesteion eraill yn llifo o'u hystafelloedd, yn panicio ac yn brwydro am le mewn lifftiau gorlawn. Daeth cyfarwyddyd dros yr uchelseinydd i adael yr adeilad ar frys.

Wedi cyrraedd y cyntedd cawsom ein harwain i ddrws ochr. Anghofia i fyth mo'r daith wedyn trwy'r sbwriel, heibio i gyrff, y mwg a'r llwch yn llosgi f'ysgyfaint a'm traed noeth yn gwingo a gwaedu wrth gerdded trwy'r sbwriel.

O'r diwedd cyrhaeddais Battery Park ble'r oeddwn wedi dal fferi y diwrnod cynt a mynd gyda channoedd o ymwelwyr cynhyrfus eraill i ryfeddu at y Cerflun Rhyddid. Heddiw, pobl bryderus ar eu ffonau symudol yn clustfeinio am y newyddion diweddaraf oedd yn llenwi'r parc.

Roedd miloedd o bobl yn dianc dros y pontydd ond swatio ar lan yr afon wnes i gan feddwl y gallwn nofio pe bai raid. Cyn bo hir, fodd bynnag, daeth cwch yr heddlu i'n cludo i ddiogelwch.

Bu'n rhaid i mi aros yn Efrog Newydd am bythefnos yn ychwanegol ond rydw i wedi bod yn ôl ddwywaith. Wedi'r cyfan, mae rhannu profiadau mor erchyll yn gwneud i mi deimlo mod i'n perthyn i'r lle.

Mary Hare.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
Terfysgol	rhywbeth sy'n creu cynnwrf	terrorism
Ehediad		flight
Rhu	sŵn uchel	roar
Gwesteion	pobl sy'n aros mewn gwesty	guests
Chwyrlio	troi a throi	whirl
Cerflun Rhyddid		Cerflun Rhyddid